# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **13 IONAWR 2011** |
| TEITL | **TREFNIADAU DATGELU - YMWYBYDDIAETH O'R POLISI CANU'R GLOCH** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **HYSBYSU'R PWYLLGOR ARCHWILIO O GANLYNIADAU AROLWG O YMWYBYDDIAETH STAFF A'U HAGWEDD TUAG AT BOLISI CANU'R GLOCH Y CYNGOR** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mabwysiadwyd Polisi "Canu'r Gloch" yn amodol gan Bwyllgor Staff Cyngor Gwynedd ar 16/07/1998, cyn ei gyflwyno yn ffurfiol i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol ar 13/10/1998. Ers hynny, mae pwysigrwydd mabwysiadu polisi o'r fath wedi'i amlygu yn y wasg drwy fethiannau corfforaethol megis Enron a Worldcom – ynghyd â materion sydd wedi codi'n lleol – ac o ganlyniad mae'r polisi wedi'i addasu dros y blynyddoedd i adlewyrchu'r gofynion cyfredol.

1.2 Lluniwyd y polisi gyda'r bwriad o annog gweithwyr i ddod ymlaen a sôn am bryderon difrifol sydd ganddynt ynghylch camymarfer er mwyn gwarchod enw da'r Cyngor a chynnal hyder y cyhoedd. Bwriad y polisi yw annog a galluogi gweithwyr i rannu pryderon difrifol yn fewnol yn hytrach na dewis ceisio datrys pethau yn allanol.

1.3 Mae'r polisi yn berthnasol i holl staff y Cyngor a chontractwyr sy'n gwneud gwaith i'r Cyngor ar eiddo'r Cyngor, megis gweithwyr asiantaeth neu adeiladwyr, cyflenwyr a'r rheini sy'n darparu gwasanaethau dan gontract gyda'r Cyngor ar eu heiddo eu hunain, megis cartrefi gofal.

1.4 Mae'r fframwaith cyfreithiol i warchod unigolion sy'n "canu'r gloch" wedi ei osod yn Neddf Datguddiad Diddordeb Cyhoeddus (Public Interest Disclosure Act - PIDA). Mae PIDA yn cael ei gydnabod fel meincnod ar gyfer "canu'r gloch" er lles diddordeb cyhoeddus. Daeth y Ddeddf i rym yng Ngorffennaf 1999.

1.5 Mae gweithwyr sy'n rhannu pryderon yn ddidwyll ynghylch achosion o gamymarfer wedi'u hamddiffyn rhag erlid a chael eu diswyddo dan Ddeddf Dadlennu Buddiant Cyhoeddus 1998.

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol

1.6 Roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a gyhoeddwyd ym Medi 2010 ar gyfer blwyddyn ariannol 2009/10 a'r cyfnod ers dyddiad y fantolen, yn datgan y canlynol:

*"Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Polisi a Threfniadau Canu'r Gloch, cynllun sy'n rhoi ffordd ddiogel a dibynadwy i weithwyr sôn yn ddidwyll am unrhyw bryderon am ymddygiad anghyfreithlon, twyllodrus neu lygredig, camweinyddu ariannol, perygl i'r cyhoedd neu'r amgylchedd, cam-drin cleientiaid, ayb. Yn ystod mis Mai 2009 dosbarthwyd cerdyn sydd yn codi ymwybyddiaeth ynghylch y drefn canu'r gloch i holl swyddogion y Cyngor".*

1.7 Yn ogystal â disgrifio'r trefniadau datgelu yn y Datganiad Llywodraethu, rhaid hefyd sicrhau fod y rheolaeth yma yn gweithio yn effeithiol. Fel canlyniad, cafodd adolygiad o ymwybyddiaeth o'r trefniadau datgelu (y polisi "canu'r gloch") ei gynnwys yng nghynllun Archwilio Mewnol 2010/11.

## 2. BWRIAD A CHWMPAS YR ADOLYGIAD

2.1 Diben yr archwiliad, felly, oedd cynnal adolygiad o ymwybyddiaeth staff Cyngor Gwynedd am Bolisi Datgelu a Chanu'r Gloch y Cyngor fel rhan o adolygiad ehangach o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor fydd yn bwydo i mewn i adroddiad blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Bydd yr archwiliad hefyd yn canfod barn cyffredinol gweithwyr y Cyngor tuag at y polisi a'r trefniadau canu'r gloch.

2.2 Yn ystod yr archwiliad adolygwyd y trefniadau sydd yn eu lle i reoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r amcanion rheolaethol canlynol:

**Amcan 01: Bod trefniadau priodol i sicrhau fod gweithwyr y Cyngor yn ymwybodol o'r polisi Canu'r Gloch.**

**Amcan 02: Bod gweithwyr y Cyngor yn barod i ddefnyddio'r polisi os yw'r angen yn codi.**

2.3 Fel rhan o'r archwiliad, dyluniwyd holiadur ac anfonwyd linc iddo drwy e-bost i holl weithwyr swyddfa o fewn y Cyngor er mwyn darganfod pa mor gyfarwydd ydynt â'r polisi. Gofynnwyd yn yr holiadur pa mor debygol fuasai'r gweithwyr o ddefnyddio'r polisi petai amgylchiadau perthnasol yn codi, ac unrhyw bryderon sydd ganddynt ynglyn â'i ddefnyddio.

2.4 Yn wreiddiol, roedd cwmpas yr archwiliad yn cynnwys holi gweithwyr tu allan i'r prif swyddfeydd (e.e. gweithwyr ffordd a chartrefi gofal) yn ogystal â gweithwyr swyddfa/sefydliad. Gan nad yw gweithwyr llaw wedi eu sefydlu ar system e-bost y Cyngor, mae dosbarthu (ac yna casglu) holiaduron o'r fath yn dasg llawer mwy heriol a chostus. Rhagbrofwyd yr holiadur ar weithwyr llaw un Adran yn unig er mwyn gwerthuso'r lefel o ddychweliadau - siomedig oedd lefel y dychweliadau, a phenderfynwyd nad oedd yn gost-effeithiol i barhau i gwmpasu gweithwyr llaw eraill yn yr arolwg.

2.5 Rhaid cadw mewn cof bod atebion yr holiadur yn gwbl anhysbys. Golyga hyn nad oes modd i'r archwilwyr wirio cywirdeb unrhyw ymateb, ac felly rhaid rhagdybio wrth ddadansoddi'r atebion bod pob ateb a roddwyd yn gywir a gwir.

## 3. DARGANFYDDIADAU

3.1 Diben yr archwiliad oedd cynnal adolygiad o ymwybyddiaeth staff Cyngor Gwynedd am Bolisi Datgelu a Chanu'r Gloch yr Awdurdod. Penderfynwyd mai'r ffordd orau o gyflawni hyn oedd darparu holiadur i holl weithwyr y Cyngor. Lluniwyd holiadur ar feddalwedd 'limesurvey' ac anfonwyd linc iddo drwy e-bost i holl weithwyr y Cyngor sydd gyda chyfrif e-bost.

3.2 Ar amser yr archwiliad yma, roedd oddeutu 2275 cyfrif e-bost yn bodoli. Ar ôl anwybyddu pawb oedd ar famolaeth neu salwch tymor hir (yn ôl eu neges "out of office") roedd hyn yn gadael 2200 o weithwyr. Anfonwyd 2 e-bost yn gofyn, ac i'w hatgoffa, iddynt gwblhau yr holiadur. Cymerodd 740 (33.6%) o weithwyr ran yn yr adolygiad.

3.3 Gweler isod ddadansoddiad o'r nifer a ymatebodd fesul Adran / Gwasanaeth:


| Adran / Gwasanaeth | Nifer o Weithwyr Ymatebodd |
|---|---|
| Addysg | 36 |
| Adnoddau Dynol | 46 |
| Cyllid | 78 |
| Darparu a Hamdden | 69 |
| Democratiaeth a Chyfreithiol | 23 |
| Economi a Chymuned | 50 |
| Gofal Cwsmer | 68 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 145 |
| Gwasanaethau Tai | 17 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 68 |
| Rheoleiddio | 56 |
| Strategol a Gwella | 41 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 41 |
| Heb Ddatgan | 2 |

**AMCAN 01: BOD TREFNIADAU PRIODOL I SICRHAU FOD GWEITHWYR Y CYNGOR YN YMWYBODOL O'R POLISI CANU'R GLOCH.**

**Ymwybyddiaeth**

3.4 Gwnaethpwyd holiadur cyffelyb yn 2003 fel rhan o archwiliad mewnol 'Polisi Canu'r Gloch'. Gwelwyd pryd hynny mai dim ond 30% allan o'r sampl o 200 aelod staff a ymholwyd oedd yn ymwybodol fod gan Gyngor Gwynedd bolisi Canu'r Gloch.


3.5 Erbyn hyn, mae canlyniadau holiadur yr archwiliad yma wedi darganfod fod y canran yma bellach yn 79.6%. Mae Ffigwr 1, isod, yn dangos y canran o'r gweithwyr a ymatebodd i'r holiadur ac sy'n ymwybodol o'r polisi, fesul Adran / Gwasanaeth:




3.6 Ymddengys felly bod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn hyrwyddo'r polisi ers 2003.


**Dull o Hyrwyddo'r Polisi**

3.7 Mae'r polisi Canu'r Gloch yn cael eu hyrwyddo mewn sawl ffordd wahanol gan y Cygnor. Gofynnwyd yn yr holiadur drwy ba ddull (gyda'r opsiwn i ddewis mwy nag un) y daeth y gweithwyr yn ymwybodol o'r polisi. Dengys y canlyniadau yn Ffigwr 2, isod:




**Cerdyn Canu'r Gloch**

3.8 Yn 2009, cynhaliwyd ymgyrch gynhwysfawr i godi ymwybyddiaeth o'r polisi drwy rannu cardiau cyswllt canu'r gloch. Golyga hyn bod pob un o weithwyr y Cyngor i fod i dderbyn cerdyn (maint cerdyn banc) sy'n rhestru rhif ffôn, cyfeiriad e-bost, a chyfeiriad post 'Canu'r Gloch', er mwyn ysgogi unrhyw un i 'ganu'r gloch' os yw'r angen yn codi. Mae'r cerdyn yma bellach wedi'i ddosbarthu a disgwylir ei fod wedi'i gynnwys fel rhan o becyn anwytho i weithwyr newydd sy'n ymuno â'r Cyngor, er nad yw hyn bob amser yn digwydd. Gofynnwyd yn yr holiadur yn uniongyrchol i'r gweithwyr os ydynt wedi derbyn y cerdyn. Darganfuwyd mai dim ond 25.5% a ddywedodd eu bod wedi derbyn un. Dengys Ffigwr 3,ddadansoddiad o'r ystadegyn yma, fesul Adran / Gwasanaeth:



## AMCAN 02: BOD GWEITHWYR Y CYNGOR YN BAROD I DDEFNYDDIO'R POLISI OS YW'R ANGEN YN CODI.


**Barn y Gweithwyr ar y Polisi**

3.9 Er mwyn i weithwyr y Cyngor fod yn ddigon hyderus i ddilyn canllawiau'r polisi, rhaid i'r cynnwys fod o safon uchel.


3.10 Cafodd ansawdd y polisi ei feirniadu'n drwm yn adroddiad archwilio 2003 am amryw o resymau. Amlygwyd nifer o achosion o gamsillafu ac anghywirdeb ieithyddol sydd yn annerbyniol i'r pwrpas o gyfleu proffesiynoldeb. Argymhellwyd ailstrwythuro, adolygu ac adnewyddu'r polisi gan gynnwys ychwanegu cymal sy'n egluro ei bod yn ddiogel ac yn dderbyniol i weithwyr godi amheuon fel bod angen. Roedd hyn o ganlyniad i weithwyr yn dangos pryder ynglyn â chyfrinachedd y polisi. Yn ogystal â hyn, argymhellwyd sefydlu pwynt cyswllt mewnol a hefyd pwyntiau cyswllt allanol, annibynnol. Gwelwyd bod y polisi cyfredol wedi'i ddiwygio'n unol â'r argymhellion yma a bod gwelliant sylweddol yn ei ansawdd. Fodd bynnag, gwelwyd bod angen diweddaru rhai termau megis teitlau swyddi.

3.11 Gofynnwyd yn yr holiadur i weithwyr y Cyngor roi eu barn ar y trefniadau cyfredol o ganu'r gloch drwy roi sgôr rhwng 1 a 5 (1 yn wan a 5 yn ardderchog) iddo. Gweler y tablau canlynol am ddadansoddiad o'r sgoriau fesul categori staff, fesul Adran / Gwasanaeth ac yn gyffredinol ar draws y Cyngor:

**Ffigwr 4: Cyfartaledd Sgôr (1-5) Mesul Categori Staff**




**Ffigwr 5: Cyfartaledd Sgôr (1-5) Mesul Adran / Gwasanaeth**



3.12 Cyfartaledd y sgôr ar draws prif swyddfeydd y Cyngor oedd 2.9 allan o 5. Rhaid ystyried y ffaith bod y rhan helaeth o weithwyr nad oedd yn ymwybodol o'r polisi wedi rhoi sgôr isel i adlewyrchu'r ffaith yma.

3.13 Roedd yr holiadur yn gwahodd pawb i gynnig sylwadau i gyd-fynd a'r sgôr os dymunant, ag er bod hyn yn gwbl ddewisol, roedd y nifer o ymatebion yn syndod o dda.

3.14 Wrth ddadansoddi'r sylwadau, gwelwyd bod diffyg ffydd yng nghyfrinachedd y broses canu'r gloch yn parhau i atal nifer o weithwyr rhag gwneud hynny petai'r angen yn codi. Gweler isod rhai o'r sylwadau:

*"would be too afraid of the consequences."*

*"Dim ffydd yng nghyfrinacholdeb y cyngor."*

*"Wrth ganu'r gloch bydd rhaid derbyn yr adlach."*

*"afraid of repercussions from Line Manager."*

3.15 Yn anffodus, mae'r pryderon yma ar sail enghreifftiau a roddwyd ble nad yw cyfrinachedd wedi ei barchu. Mynegodd 21 o'r gweithwyr (2.84%) eu bod wedi canu'r gloch yn y gorffennol a bod rhai ohonynt wedi dioddef yn llym oherwydd diffyg cyfrinachedd. Mae enghreifftiau wedi'i rhoi ble mae'r dioddef yma wedi gorlifo i fywyd tu allan y swyddfa, sydd wrth gwrs yn fater difrifol iawn.

3.16 Rhai o weithwyr mwyaf beirniadol y trefniadau yw gweithwyr sydd wedi canu'r gloch yn y gorffennol. Mynegodd y mwyafrif ohonynt nad oeddynt yn hapus gyda'r modd y cafodd y mater ei drin yn gyffredinol. Esboniwyd ei fod yn ymddangos bod rheolwyr llinell yn gwneud dim pan mae cwyn yn cael ei godi a bod y 'canwyr' cloch ddim yn cael chwarae teg a chefnogaeth am fynegi eu pryderon.

**<u>Canu'r Gloch yn y Dyfodol</u>**

3.17 Mae'r polisi yn rhestru enghreifftiau o amgylchiadau ble dylai gweithwyr y Cyngor ganu'r gloch. Rhestrwyd rhain yn yr holiadur, gan ofyn pe bai'r gweithwyr yn dod ar eu traws, a fuasent yn debygol o ganu'r gloch. Mynegodd 86.9% y byddent yn barod i wneud hynny, er na fuasai llawer ohonynt yn gwbl gyfforddus yn gwneud hynny.

**<u>Syniadau Ynglyn â Chodi Ymwybyddiaeth o'r Polisi</u>**

3.18 Roedd cwestiwn olaf yr holiadur yn gofyn barn y gweithwyr am ffyrdd i godi ymwybyddiaeth o bolisïau'r Cyngor yn gyffredinol. Mynegodd nifer fawr o weithwyr mai'r holiadur a ddyluniwyd ar gyfer yr adolygiad hwn wnaeth gyflwyno'r polisi canu'r gloch iddynt yn y lle cyntaf. Yn ogystal â hyn, argymhellodd sawl gweithiwr mai ymgyrch e-bost amserol yw'r ffordd orau i hysbysu staff o bolisïau.

3.19 Yn ogystal â hyrwyddo'r polisïau drwy e-bost, cynigwyd hefyd:

- Dylunio rhaglen ar gyfer meddalwedd ymwybyddiaeth polisi Cetis
- Hwyluso mynediad at y polisïau drwy'r fewnrwyd
- Codi ymwybyddiaeth drwy argraffu canllawiau ar gefn talebau cyflog.

## 4. CASGLIADAU

4.1 Gan fod pob gweithiwr ar system e-bost y Cyngor wedi derbyn dau e-bost ynglyn â'r polisi canu'r gloch, gellir tybio bod y rhan helaeth ohonynt bellach yn ymwybodol bod gan y Cyngor bolisi o'r fath. Ymatebodd dros draean o'r gweithwyr, felly sicrhawyd bod sampl cryf ac amrywiol wedi cymryd rhan yn yr arolwg, heb fod yn gostus i'w gyflawni.

4.2 Gwelwyd bod cynnydd sylweddol wedi bod yn ymwybyddiaeth gweithwyr y Cyngor o'r Polisi Canu'r Gloch ers yr archwiliad cyffelyb diwethaf yn 2003. Fodd bynnag, wrth ddadansoddi canlyniadau'r holiadur, gwelwyd mai dim ond 25.5% o weithwyr a fynegodd eu bod wedi derbyn cerdyn cyswllt Canu'r Gloch. Fodd bynnag, gall y gwir ganran fod yn uwch oherwydd bu i'r cardiau gael eu dosbarthu i'r gweithwyr peth amser yn ôl erbyn hyn. Gwelwyd mai'r dull gorau o hyrwyddo'r polisi ymysg gweithwyr y Cyngor oedd drwy'r fewnrwyd. Fodd bynnag, awgrymwyd sawl gwaith bod y polisi llawer rhy anodd ei ddarganfod arno.

4.3 Rhannodd ambell weithiwr eu profiadau o ddefnyddio'r polisi, ac yn anffodus nid oeddent yn galonogol. Ni ellir magu ffydd y gweithwyr yn y trefniadau tra bod achosion fel hyn yn codi. Ar y llaw arall, mynegodd 86.9% o'r gweithwyr y byddent yn barod i ganu'r gloch yn y dyfodol petai'r amgylchiadau yn codi, ond yn ôl y sylwadau, nid penderfyniad hawdd y bydd hyn iddynt.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 **Ar ôl ystyried canlyniadau'r arolwg a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio gefnogi'r argymhellion isod a wnaethpwyd gan Archwilio Mewnol, i'w gweithredu gan yr Adran Adnoddau Dynol:**

- **Ystyried ailddosbarthu'r cardiau cyswllt canu'r gloch.**
- **Dylid codi pryderon yr amlinellwyd gan y gweithwyr yng nghyfarfodydd y Coleg Uwch Reolwyr a'r Fforwm Rheolwyr Canol.**
- **Ymdrechu i geisio lleihau pryderon staff ynglyn â chanu'r gloch a cheisio ennyn eu hyder yn y trefniadau.**

**Atodiad**

## Holiadur Ymwybyddiaeth o'r Polisi Canu'r Gloch

## *Whistleblowing Policy Awareness Questionnaire*

Mae'r Uned Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad o ymwybyddiaeth staff am Bolisi Datgelu a Chanu'r Gloch y Cyngor a hefyd canfod beth yw eu barn ar y Polisi.

Bydd yr holiadur yn cymryd ychydig funudau yn unig i chwi ei gwblhau. Mae 12 o gwestiynau yn yr arolwg.

Bydd yr Uned Archwilio Mewnol yn parchu cyfrinachedd eich atebion ac ni ddatgelir unrhyw wybodaeth a gyflwynir.

*The Internal Audit Unit is conducting a review to assess the level of awareness and opinion of Gwynedd Council's staff towards its Whistleblowing Policy.*

*The questionnaire will only take a few minutes of your time to complete. There are 12 questions in this survey.*

*The Internal Audit Unit will respect the confidentiality of your responses.*

**(1) I ba gategori o'r canlynol yr ydych yn perthyn?** Dewiswch **dim ond un** o'r canlynol:

***To which of the following categories do you belong?*** *Please choose* ***only one*** *of the following:*

- ☐ Pennaeth Adran / Uwch Reolwr — *Head of Department / Senior Manager*
- ☐ Rheolwyr Canol — *Middle Manager*
- ☐ Goruchwylwyr — *Line Manager*
- ☐ Gweithwyr Uniongyrchol — *Direct Worker*
- ☐ Arall — *Other*

**(2) I ba adran yr ydych yn gweithio?** Dewiswch **dim ond un** o'r canlynol:

***For which department do you work?*** *Please choose* ***only one*** *of the following:*

- ☐ Adnoddau Dynol — *Human Resources*
- ☐ Gofal Cwsmer — *Customer Care*
- ☐ Cyllid — *Finance*
- ☐ Democratiaeth a Chyfreithiol — *Democracy and Legal*
- ☐ Rheoleiddio — *Regulatory*
- ☐ Ymgynghoriaeth Gwynedd — *Gwynedd Consultancy*
- ☐ Priffyrdd a Bwrdeistrefol — *Highways and Municipal*
- ☐ Addysg — *Education*
- ☐ Economi a Chymuned — *Economy and Community*
- ☐ Gwasanaethau Cymdeithasol — *Social Services*
- ☐ Darparu a Hamdden — *Provider and Leisure*
- ☐ Strategol a Gwella — *Strategic and Improvement*
- ☐ Gwasanaethau Tai — *Housing Services*

**(3) A ydych yn ymwybodol fod gan Cyngor Gwynedd Bolisi Canu'r Gloch?**

Dewiswch **dim ond un** o'r canlynol:

***Are you aware that Gwynedd Council has a Whistleblowing policy?***

*Please choose* ***only one*** *of the following:*

☐ Ydw *Yes*

☐ Nac ydw *No*

**(4) Sut ydych yn ymwybodol o'r polisi?** Dewiswch **bob un** sy'n berthnasol:

***How did you know about the policy?*** *Please choose* ***any*** *that applies:*

☐ Mewnrwyd *Intranet*

☐ Llawlyfr/Sesiwn Anwytho *Handbook/Induction Session*

☐ Rheolwr Llinell *Line Manager*

☐ Cydweithiwr *Co-worker*

☐ Personel *Personnel*

☐ Cerdyn Cyswllt Canu'r Gloch *Whistleblowing Card*

☐ Ddim yn Ymwybodol *Not Aware of the Policy*

☐ Arall: *Other:*

……………………………….. ……………………………………….

**(5) A ydych wedi derbyn Cerdyn Cyswllt Canu'r Gloch?** Dewiswch **dim ond un** o'r canlynol:

***Have you recieved a Whistleblowing Contact Card?*** *Please choose* ***only one*** *of the following:*

☐ Do *Yes*

☐ Naddo *No*

**(6) Ydych wedi defnyddio'r polisi?** Dewiswch **dim ond un** o'r canlynol:

***Have you ever used the policy?*** *Please choose* ***only one*** *of the following:*

☐ Do *Yes*

☐ Naddo *No*

**(7) Os ydych wedi ei ddefnyddio, a oeddech yn hapus gyda'r modd y cafodd y mater ei drin?**

Dewiswch **dim ond un** o'r canlynol:

***If you have used the policy, were you happy with the way in which the matter was dealt with?***

*Please choose* ***only one*** *of the following:*

☐ Oeddwn *Yes*

☐ Nac Oeddwn *No*

☐ Dim yn berthnasol *Not Relevant*

**(8) A gafodd y mater ei ddatrys?** Dewiswch **dim ond un** o'r canlynol:

***Was the matter resolved?*** *Please choose* ***only one*** *of the following:*

☐ Do *Yes*

☐ Do - I raddau *Yes - To some extent*

☐ Na *No*

☐ Dim yn berthnasol *Not Relevant*

**(9) A ydych yn meddwl fod y trefniadau cyfredol yn ddigonol? Rhowch sgôr o 1-5 ble mae 1 yn wael a 5 yn ardderchog.** Dewiswch **dim ond un** o'r canlynol:

***Do you think the current procedures are adequate? Give a score from 1-5, where 1 is poor and 5 excellent. Was the matter resolved?*** *Please choose* ***only one*** *of the following:*

☐ 1 ☐ 2 ☐ 3 ☐ 4 ☐ 5

**(10) Yn eich barn chwi, be all y Cyngor ei wneud i gryfhau trefniadau Canu'r Gloch?**

***In your opinion, what can the Council do to improve the Whistleblowing procedures?***

............................................................................................................................
............................................................................................................................
............................................................................................................................
............................................................................................................................
.......................

☐ Ddim yn Ymwybodol o'r Polisi *Not Aware of the Policy*

**(11) Gall cwynion hollol gyfiawn fod ynghylch rhywbeth:**

- **sydd yn anghyfreithlon, yn dwyllodrus neu yn llygredig;**
- **sydd yn torri unrhyw gôd ymarfer statudol;**
- **sydd yn gyfystyr ag ymddygiad amhriodol;**
- **sydd yn gyfystyr â cham-drin cleientiaid yn rhywiol, yn gorfforol neu yn emosiynol;**
- **sydd yn peryglu iechyd a diogelwch unigolyn;**

**Petaech yn darganfod un o'r uchod yn y dyfodol, a fyddwch yn debygol o ganu'r gloch?**

***Justifiable complaints may relate to something that:***

- ***is unlawful, fraudulent or corrupt;***
- ***breaches any statutory code of practice;***
- ***amounts to improper conduct;***
- ***constitutes sexual, physical or emotional abuse of clients;***
- ***endangers the health and safety of any individual;***

***If you discovered any of the above in the future, would you be likely to 'blow the whistle'?***

☐ Byddwn *Yes*

☐ Na fyddwn. Os hynny, rhowch eich rhesymau isod *If so, please comment below*

..........................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................

**(12) Oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynglyn â chodi ymwybyddiaeth o bolisïau sydd yn ymwneud ag amodau gwaith y Cyngor?**

***Do you have any other comments in respect of raising awareness of policies regarding the Council's terms and conditions of service?***

..........................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................................

**Diolch am gymryd rhan.** ***Thank you for taking part.***